| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD :** | **22 Mai 2008** |
| **TEITL :** | **Penodi Aelodau i'r Pwyllgor Safonau** |
| **PWRPAS:** | **Cymeradwyo trefn i benodi aelodau i'r Pwyllgor Safonau** |
| **AWDUR :** | **Dilys Phillips, Swyddog Monitro** |

**1. Cefndir**

1.1 Mae wyth aelod i'r Pwyllgor Safonau, sef:

- 3 aelod etholedig o Gyngor Gwynedd
- 1 'Aelod Pwyllgor Cymunedol', sef aelod o gyngor cymuned o fewn Gwynedd (sydd heb fod yn aelod o Gyngor Gwynedd)
- 4 'Aelod Annibynnol', sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol

**2. Aelodau Etholedig**

2.1 Daeth tymor aelodaeth y tri aelod etholedig i ben gyda'r etholiadau llywodraeth leol diweddar, ac nid ydynt bellach yn aelodau o'r Cyngor.

2.2 Rwyf wedi ysgrifennu felly at holl aelodau'r Cyngor yn gofyn i'r sawl sydd â diddordeb mewn gwasanaethau ar y pwyllgor i gyflwyno eu henwau i mi erbyn diwedd y mis. Y bwriad wedyn yw cyflwyno'r enwau i'r Grŵp Busnes i'w hystyried, ac yna cyflwyno ei argymhelliad i gyfarfod nesaf y Cyngor.

**3. Aelod Pwyllgor Cymunedol**

3.1 Daeth tymor aelodaeth yr Aelod Pwyllgor Cymunedol i ben hefyd yr un pryd, ac oherwydd y rheoliadau perthnasol, nid oes modd ei benodi am dymor pellach.

3.2 Mae'r rheoliadau perthnasol yn darparu bod rhaid ymgynghori gyda'r cynghorau cymuned/tref cyn penodi aelod pwyllgor cymunedol. Rwyf eisoes wedi ysgrifennu at glercod yr holl gynghorau yn dweud wrthynt am gyflwyno enwau unrhyw aelodau yr hoffent eu henwebu i mi erbyn diwedd mis Mai. Y bwriad wedyn yw cynnal cyfweliadau o flaen panel o aelodau'r Pwyllgor Safonau, a chyflwyno argymhelliad i benodi aelod i gyfarfod nesaf y Cyngor.

**4. Aelodau Annibynnol**

4.1 Daeth tymor aelodaeth dau o'r aelodau annibynnol - y Cadeirydd, Mr John Pollard a Mr Malcolm Jones i ben hefyd. Serch hynny, caniateir eu hail-

benodi am un cyfnod pellach o bedair blynedd, ac maent wedi mynegi eu parodrwydd i wasanaethu am gyfnod pellach.

4.2 Mae’r Pwyllgor Safonau yn awyddus i beidio â cholli profiad ac arbenigedd y ddau aelod yma ac rwyf innau yn ategu’r dymuniad hwnnw. Mae’r rheoliadau yn darparu nad oes angen dilyn y broses statudol a ddilynir i benodi aelodau annibynnol newydd wrth eu hail-benodi.

**5. Argymhellion**

5.1 Cymeradwyo’r trefniadau a ddisgrifir uchod ar gyfer penodi aelodau etholedig ac aelod pwyllgor cymunedol i’r Pwyllgor Safonau.

5.2 Ail benodi Mr John Pollard a Mr Malcolm Jones fel aelodau o’r Pwyllgor Safonau i wasanaethu am gyfnod o bedair blynedd.